

GWAITH CREADIGOL gydag AI (Fersiwn 2)

Diweddarwyd Mai 2026:

Trosolwg

Yn hanesyddol, mae technoleg newydd wedi darparu cyfle bob amser. Mae'r wasg argraffu, y ffotograffau cyntaf, recordiadau sain, recordiadau o ffilmiau symudol, technoleg gyfrifiadurol a'r rhyngwrdd wedi bod yn sianeli ar gyfer datblygiadau diwylliannol a chreadigol ac wedi trawsnewid cymdeithas mewn llawer o ffyrdd cadarnhaol. Mae AI yn ganolog i'r chwyldro technolegol presennol rydym yn ei brofi, felly, mae'n bwysig, ac yn arwyddocaol, ein bod fel prifysgol yn gofleidio'r datblygiadau hyn yn foesebol ac yn gadarnhaol gydag eglurder, diben a chreadigrwydd.

Beth yw AI mewn amgylchedd celf a dylunio?

Systemau seiliedig ar beiriannau yw Deallusrwydd Artiffisial. Maent yn gallu gwneud rhagfynegiadau, argymhellion neu benderfyniadau sy'n dylanwadu ar amgylcheddau real neu rithwir os rhoddir set o amcanion a ddiffiniwyd gan fodau dynol. (Cyngor Ewrop, 2022). Mewn perthynas â'r meysydd pwnc creadigol, mae AI yn dechnoleg drawsnewidiol, sydd â'r potensial i newid neu addasu'r ffordd rydym yn canfod, creu, cynhyrchu, a rhannu pob math o arteffactau (testun, dialog, llais, delweddau, ffotograffiaeth, cefndiroedd, cerddoriaeth, dylunio sain, fideo, animeiddio, dylunio cynnyrch, ffasiwn, patrwm, pensaernïaeth, gwrthrychau tri dimensiwn a codio cyfrifiadurol). Mae PCYDDS yn cefnogi myfyrwyr a staff i archwilio, arbrofi ac arloesi gyda AI cynhyrchiol ym mhob pwnc creadigol (Grŵp Russell 2024). Mae llythrennedd AI yn sgil hanfodol ar gyfer y dyfodol, ac mae'n datblygu a newid ar gyfradd esbonyddol, felly mae'n bwysig bod canllawiau clir yn cael eu darparu i'w ddefnydd moesebol ar gyfer pynciau creadigol mewn amgylchedd academiaidd. Mae AI yn darparu cyfleoedd creadigol ardderchog yn y celfyddydau, ond rhaid sicrhau nad yw myfyrwyr yn cyflwyno gwaith i'w asesu sydd wedi'i gynhyrchu'n llwyr trwy'r broses hon ac yna'n cael ei gyflwyno fel eu gwaith eu hunain.

Beth ddylech chi ei wneud wrth ddefnyddio AI fel rhan o'r broses greadigol:

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol ar draws disgyblaethau creadigol, dylunio a pherfformio, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) celf, dylunio, ffasiwn, pensaernïaeth, ffilm, cerddoriaeth, theatr, perfformio, cyfryngau digidol, a thechnolegau creadigol. Mae'n cydnabod bod arfer creadigol cyfoes yn aml yn ymwneud â chydweithio, ymarfer, ailadrodd, perfformiadau byw, dylunio systemau, a phrosesau trwy gyfrwng offer. Dylid dadansoddi disgwyliaid ynghylch y defnydd o AI, awduriaeth, ac asesu mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu normau a realiti proffesiynol pob disgyblaeth.

- Dylech fod yn ymwybodol na ellir disodli'r broses o ddatblygu sgiliau traddodiadol, dysgu gweithredol neu'r gwaith o brosesu gan ddefnyddio AI.
- Fel arfer, amlinellir y defnydd o AI a ganiateir y tu hwnt i offer safonol sydd wedi'u

hintegreiddio i'r diwydiant o fewn manyleb yr asesiad. Lle nad yw hyn yn glir, neu le mae myfyrwyr yn bwriadu defnyddio AI mewn ffyrdd newydd neu arbrofol, dylent gysylltu ag Arweinydd y Modwl cyn cyflwyno eu gwaith.

- Bellach mae llawer o offer creadigol digidol yn ymgorffori AI fel rhan safonol o'u swyddogaeth, er enghraifft *Adobe Creative Cloud*. Caniateir defnyddio offer o'r fath fel rhan o'ch llif gwaith arferol ac nid oes angen dyfynnu'n awtomatig. Ni ddisgwylir i chi gofnodi pob achos o gynhyrchu neu olygu awtomataidd a gynorthwywyd gan AI, ond i fod yn dryloyw lle mae AI wedi chwarae rôl flaenllaw wrth gynhyrchu, llunio, neu drawsnewid cynnwys creadigol. Yn achosion o'r fath, dylech esbonio sut y defnyddiwyd AI a dangos bod eich barn creadigol, eich dewis, eich mireinio a'ch bwriad beirniadol eich hun wedi'u cymhwyso.
- Nid yw'n ofynnol i fyfyrwyr ddogfennu pob enghraifft o swyddogaethau a gynorthwyir gan AI sydd wedi'u hymgorffori o fewn offer safon y diwydiant creadigol. Nid oes angen cofnodi defnydd AI arferol neu seilwaith (megis dewis, masgio, gwella, optimeiddio neu nodweddion awtomeiddio) ar wahân. Lle defnyddir systemau AI yn fwriadol i gynhyrchu, disodli neu ail-lunio cynnwys creadigol yn sylweddol, dylid cofnodi'r defnydd hwn yn glir ac adfyfrio arno. Dylai hyn gynnwys y rhaglen, y cymhwysiad, yr offer a/neu'r system a ddefnyddiwyd, unrhyw gwestiynau a ddefnyddiwyd (boed yn ddarluniadol, yn destun neu'n ddata), y dyddiad pan ymgwymerwyd â hyn ac esboniad o sut mae AI wedi llywio'r penderfyniadau creadigol. Nid oes angen log technegol o bob cam gweithredu.
- Fe'ch cynghorir bod unrhyw waith a gynhyrchir gan AI a ddefnyddiwyd, a ddyfeisiwyd neu a addaswyd fel rhan o'r broses ddatblygu yn cael ei nodi'n glir trwy gydnabyddiaeth a chyfeirnod priodol.

Er enghraifft:



Adobe Firefly (2024). Ymateb testun Firefly i ddelwedd gan gwestiwn Tom Jones i ' greu llyn llonydd sy'n adlewyrchu golau'r lleuad mewn tirwedd anial rewedig. [Cynhyrchwyd 19.03.24]

- P'un a ddefnyddir offer AI ai peidio, rhaid i'r holl waith a gyflwynir ddangos yn glir eich awduriaeth greadigol, eich prosesau gwneud penderfyniadau, a'ch rheolaeth dros y canlyniadau terfynol. Lle mae AI wedi cyfrannu mewn ffordd ystyrlon, dylid cydnabod y cyfraniad hwn yn dryloyw ac adfyfrio'n feirniadol arno. Nid yw'r defnydd o AI ynddo'i hun yn negyddu awduriaeth; dangosir awduriaeth trwy fwriad, dewis, curadu, mireinio a gwerthuso beirniadol.
- Caniateir dadansoddi'r defnydd o AI yn eich ymchwil, yn natblygiad eich cynnwys a'ch proses greadigol.
- Gallwch ddefnyddio AI fel rhan o'ch arfer creadigol lle mae gwneud hynny'n cefnogi ac yn ymestyn eich meddwl creadigol a'ch penderfyniadau eich hun. Ni ddylai defnydd o AI guddio neu ddisodli'r arddangosiad o'ch awduriaeth, eich bwriad beirniadol a'ch ymgysylltiad ag ymarfer creadigol.
- Dylech fod yn ymwybodol o duedd a'i reoli wrth greu cynnwys sy'n deillio o AI, a dylech ddangos ymwybyddiaeth o'r rôl y gall hyn ei chwarae wrth ddarlunio rhagfarn a hyrwyddo stereoteipiau yn seiliedig ar ryw, dosbarth, hil, rôl crefydd, hunaniaeth, a chyfeiriadedd rhywiol. Dylid cyflwyno unrhyw cynnwys sy'n deillio o AI gydag ymwybyddiaeth feirniadol briodol.
- Dylech bob amser ceisio hyrwyddo canlyniadau amrywiol a chynhwysol a'u meithrin wrth hyrwyddo offer AI.
- Dylech fod yn ymwybodol o effaith negyddol amgylcheddol AI, o ganlyniad i'r swm mawr o ynni a ddefnyddir gan systemau AI.
- Gallwch gyflwyno unrhyw ddymuniad i gynnig eithriad i'r canllawiau isod yn ysgrifenedig gyda'ch bwriad a'ch canlyniadau wedi'u hegluro a'u dogfennu'n glir. Dylai Arweinydd y Modwl gymeradwyo eithriadau ym mhob achos cyn eu gweithredu.
- Dylech fod yn dryloyw bob amser ynghylch unrhyw agwedd ar eu prosesau a'u canlyniadau, er mwyn osgoi unrhyw gamddehongliad posibl.

Yr hyn na allwch chi ei wneud wrth ddefnyddio AI fel rhan o'r broses greadigol:

Mae defnyddio canlyniadau a gynhyrchir gan AI nad ydynt wedi'u nodi, yn gamymddwyn academiaidd.

- Ni ddylech gyflwyno deunydd a gynhyrchir gan AI mewn ffordd sy'n ei gam-gynrychioli fel cynnyrch ein hymdrech greadigol, eich barn neu'ch penderfyniad eich hun. Lle mae systemau AI wedi cyfrannu at ganlyniadau creadigol, rhaid eich bod yn gallu dangos sut ydych wedi cyfeirio, dewis, curadu, mireinio a gwerthuso'n feirniadol yr allbynnau hyn fel rhan o'ch arfer eich hun.
- Rhaid i chi beidio â gweithredu unrhyw ymdrech artistig AI sy'n ceisio dynwared arfer cyfredol gan nad yw hyn yn cael ei ystyried yn waith myfyriwr dilys. Felly, ni all unrhyw canlyniadau terfynol a gyflwynir fod o ganlyniad i ofyn i AI ddynwared gwaith ymarferwr arall, oni bai ei fod yn arwyddocaol yn gysyniadol i'r prosiect. Ni ystyrir bod defnydd anfeirniadol o AI i ail-greu arddull neu ddull ymarferwyr cyfredol yn dystiolaeth ddigonol o waith myfyriwr dilys. Pan fydd arddulliau, genres neu gynseiliau artistig yn llywio canlyniadau â chymorth AI, rhaid i'r ymgysylltiad hwn gael ei fframio'n feirniadol, ei gydnabod yn glir, a bod yn rhan annatod o'r prosiect, gan ddangos trawsnewidiad, bwriad a barn greadigol.
- Rhaid i chi beidio â defnyddio enwau artistiaid/darlunwyr, gweithiau celf, cwmnïau neu frandiau o fewn cwestiynau i AI er mwyn diogelu awduriaeth a chynnal dilysrwydd. Mae hyn er mwyn cynnal uniondeb artistig, hawlfraint ac eiddo deallusol yr unigolion yr effeithir arnynt.
- Yn nhermau hygyrchedd, gall llawer o fyfyrwyr anabl, gan gynnwys y rheiny sydd ag ADHD, dyslecsia a ffurfiau eraill o niwroamrywiaeth, ddefnyddio offer megis ChatGPT, Microsoft Copilot, Goblin. Tools, Grammarly, a Quillbot am gymorth wrth esbonio cysyniadau a chadarnhau dealltwriaeth.
- Ar ran uniondeb academiaidd a chydaddoldeb, ni fydd unrhyw fantais annheg yn deillio o ddefnyddio unrhyw AI mewn unrhyw elfen o waith neu gyflwyniad myfyriwr.